Statws *This is the original version (as it was originally made). Dim ond ar ei ffurf wreiddiol y mae'r eitem hon o ddeddfwriaeth ar gael ar hyn o bryd.*

OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

1999 Rhif 3451 (Cy.49)

Y GWASANAETH IECHYD GWLADOL, CYMRU

Gorchymyn Sefydlu Ymddiriedolaeth Gwasanaeth Iechyd Gwladol Caerdydd a'r Fro 1999

Wedi'i wneud	-	-	*15 Rhagfyr 1999*
Yn dod i rym	-	-	*1 Ionawr 2000*

Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn gwneud y Gorchymyn canlynol drwy arfer y pwerau a roddwyd i Ysgrifennydd Gwladol Cymru gan adran 5(1) o Ddeddf Gwasanaeth Iechyd Gwladol a Gofal Cymunedol 1990(**1**) a pharagraffau 1,3,4 a 5 o Atodlen 2 iddi, adran 25(2) o Ddeddf yr Iaith Gymraeg 1993(**2**) a phob pŵer arall sy'n galluogi'r Ysgrifennydd Gwladol yn y cyswllt hwnnw ac a freiniwyd bellach yng Nghynulliad Cenedlaethol Cymru(**3**), ar ôl cwblhau'r ymgynghoriad a ragnodir o dan adran 5(2) o Ddeddf Gwasanaeth Iechyd Gwladol a Gofal Cymunedol 1990(**4**):

(**1**) 1990 p.19; diwygiwyd adran 5(1) a pharagraff 3(2) o Atodlen 2 gan adran 13(1) o Ddeddf Iechyd 1999 (p.8) ("Deddf 1999"); enwir paragraff 1 o Atodlen 2 ar gyfer dehongli cyfeiriadau at "an order" o dan adran 5(1); diwygiwyd paragraffau 3, 4 a 5 gan baragraff 85 o Atodlen 1 i Ddeddf Awdurdodau Iechyd 1995 (p.17) ("Deddf 1995").

(**2**) 1993 p.38.

(**3**) Trosglwyddwyd swyddogaethau Ysgrifennydd Gwladol Cymru o dan adran 5 o Ddeddf Gwasanaeth Iechyd Gwladol a Gofal Cymunedol 1990, ac Atodlen 2 iddi, i Gynulliad Cenedlaethol Cymru gan Orchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999 (O.S. 1999/672).

(**4**) Disodlwyd adran 5(2) gan baragraff 69 o Atodlen 1 i Ddeddf 1995.